
**Rhif**: **2**

**Rhif y Cais / Application Number : C14/0645/22/MW**

Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.
Location Plan for identification purposes only. Not to scale.



Cais Rhif: C14/0645/22/MW
Dyddiad Cofrestru: 10/07/2014
Math y Cais: Mwynau
Cymuned: Llanllyfni
Ward: Llanllyfni

Bwriad: AIL GYFLWYNIAD O GAIS BLAENOROL A WRTHODWYD I SYMUD DEUNYDD O DDYDDODION GWEITHIO MWYNAU YNGHYD A GWAITH PROSESU CYSYLLTIOL

Lleoliad: TOMEN LLECHI DOLBEBIN SLATE TIP, TALYSARN, CAERNARFON, GWYNEDD

**Crynodeb o'r Argymhellion:** GWRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae'r safle ar ymyl ddeheuol dyffryn Nantlle ger stad tai Bro Silyn ac oddeutu 160m i'r gogledd-
ddwyrain o Tanrallt.

1.2 Mae hwn yn ail-gyflwyniad o gais (cyf. C13/1052/22/MW), ar gyfer symud rhan o domen lechi a wrthodwyd caniatâd cynllunio ym mis Ionawr 2014. Mae'r rhybudd penderfyniad wedi'i atodi i'r adroddiad hwn ond yn gryno, roedd rhesymau'r Cyngor dros wrthod fel a ganlyn:

- Yr angen am y mwyn, digon o gronfeydd llechi wrth gefn a ganiateir yng Ngwynedd,
- Mwynderau gweledol, dim cynigion adfer,
- Yn groes i bolisi parth byffer ac effaith ar fwynderau preswyl,
- Dim digon o wybodaeth wedi'i gyflwyno i benderfynu ar effaith y cynnig ar yr amgylchedd dŵr lleol.

1.3 Y bwriad yw cloddio 7,500m² mewn rhan o domen gweithio mwynau yn mesur 3.16ha, ynghyd â gwaith prosesu cysylltiol. Mae cynlluniau'r cais, yn dangos ôl troed llai ar gyfer yr ardal brosesu ategol a chompownd y safle a gyflwynwyd gyda'r cais blaenorol Rhif C13/1052/22/MW. Tra roedd y cynigion gwreiddiol yn golygu colled Porfa Rhos, mae cynlluniau'r cais wedi'u haddasu fel bo compownd y safle'n cael ei greu o fewn godre'r domen. Bwriedir defnyddio'r gwastraff llechi sydd yn deillio o waith adeiladu'r compownd ar gyfer creu ffordd fynediad i'r B4418 fel y caniateir dan ganiatâd cynllunio, C11/1140/22/LL.

1.4 Mae'r manylion diwygiedig a gyflwynwyd i gefnogi'r cais presennol yn cynnwys datganiad diwygiedig sydd wedi'i diweddaru gan adroddiad ecolegol ac asesiad effaith sŵn a gynhaliwyd ym mis Awst 2014. Nid yw'r datganiad cais yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o'r newidiadau arfaethedig, ond yn hytrach mae'r newidiadau arfaethedig yn cael eu casglu yn y wybodaeth ategol. Mae'r newidiadau o'r fath yn cynnwys:

- Cael gwared a'r oll weithgaredd malu llechi,
- Asesiad sŵn diwygiedig a gynhaliwyd ym mis Awst 2014,
- Methodoleg ar gyfer lliniaru ecolegol a strategaeth adfer,
- Compownd y safle i'w leoli o fewn ôl troed y domen.

Mae'r newidiadau uchod i'r cais wedi cael eu hasesu yn fanylach o dan yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

1.5 Bydd cyfanswm o 150,000 tunnell yn cael ei symud dros gyfnod o wyth mlynedd a rhan yn unig o'r domen a gâi ei weithio yn unol â'r cynigion a gyflwynwyd. Dyma yw'r hyn y rhoddir sylw iddo yn y cais hwn h.y. 19,000 tunnell, ar gyfartaledd o wastraff llechi'n cael ei symud bob blwyddyn ar raddfa o hyd at chwe llwyth, 15-20 tunnell y dydd. Mae cyfanswm o oddeutu dwy filiwn tunnell yn y cyfan o'r domen. Byddid yn trafod gwaith datblygu gweddill yr adnoddau mwynol mewn cais cynllunio ar wahân ac yn sgrinio dan ddarpariaeth Rheoliadau Asesiad ar yr Effaith Amgylcheddol.

1.6 Y bwriad yw bod llwybr teithio pwrpasol dan ganiatâd cynllunio C11/1140/22/LL yn gwasanaethu'r datblygiad, gyda mynediad uniongyrchol oddi ar y llwybr i'r B4418, h.y. yr un peth ar gyfer hawliau datblygu a ganiateir ac a sefydlir dan Ran 23 Dosbarth B ar 15fed o Dachwedd 2012, i symud deunydd o domen gweithio mwynau ar dir cyfagos. Er hynny, dylid nodi bod cyfyngiad amser ar y caniatâd am drac mynediad dan C112/1140/22/LL a bydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2015.

1.7 Mae datganiad y cais yn cadarnhau'r dull gweithio - sef gweithio trwy ddefnyddio cloddiwr 360º yn ogystal â defnyddio'r dwylo, a dechrau cloddio o ben y domen mewn gwarrau o dri i bedwar medr o uchder. O fanylion y cais, mae'r bwriad yn cynnwys gweithio o ddydd Llun hyd ddydd Gwener o 8.00am hyd 6.00pm ynghyd â chludo a llwytho deunyddiau rhwng 9.00am a hanner dydd ddydd Sadwrn. Nid oes llawer o wybodaeth i gadarnhau union natur unrhyw weithrediadau prosesu, dim ond fod y raddfa o hynny'n cael ei gyfyngu i symud llechi a ellir ei ail-brosesu gyda'r cynnyrch wedi hynny'n cael eu cymryd oddi ar y safle a'i werthu i fasnachwyr, contractwyr adeiladu a gwaith sifil. Mae'r asesiad effaith sŵn cefnogol dim ond yn datgan fod y gweithgareddau malurio'n cael eu heithrio'n benodol o'r cynigion datblygu, lle mae amcangyfrif priodol o lefelau sŵn penodol dim ond yn ystyried gweithrediadau sy'n cynnwys cloddio a llwytho deunyddiau yn unig.

1.8 Mae'r cynigion diwygiedig yn cynnwys strategaeth adfer un-cam i gael ei weithredu pan ddaw'r gweithrediadau i ben. At hyn, ym manylion y cais, mae darpariaeth ar gyfer lliniaru yn yr ystyr na fyddir yn cyffwrdd yn y lleiaf o'r ddwy domen lechi, sy'n ddatblygiad a ganiateir dan Ran 23B Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995, fel ei bod yn rhagod rhwng gwaith y safle ac anheddiad Tanrallt. Byddai hyn yn digwydd pe câi'r cais cynllunio hwn ei ganiatáu.

1.9 Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn syrthio y tu mewn i'r disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad ar yr Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999. Mae'r datblygiad yn syrthio y tu mewn i'r disgrifiad o ddatblygiad a nodir ym mharagraff 2, Atodlen 2 y Rheoliadau (chwareli, mwyngloddio brig a chloddio mawn). Wedi sgrinio ac asesu'r bwriad yn unol â Meini prawf y datblygiad dan Atodlen 3, credir nad yw effaith debygol y datblygiad ar yr amgylchedd yn ddigon i gyfiawnhau cyflwyno asesiad ar yr effaith Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio.

## 2. Polisïau Perthnasol:

**2.1** Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn tanlinellu y dylai penderfyniadau cynllunio fod yn unol â'r Cynllun Datblygu, onid yw ystyriaethau o bwys yn nodi fel arall. Ymhlith

ystyriaethau cynllunio mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

- POLISI STRATEGOL 2 – Yr Amgylchedd Naturiol
- POLISI STRATEGOL 3 – Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol
- POLISI STRATEGOL 7 – Mwynau
- POLISI STRATEGOL 16 – Cyflogaeth

POLISI A3 – **Egwyddor Ragofalus**. Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned oni bai y gall yr asesiad ar yr effaith ddangos heb amheuaeth bod modd, yn y pen draw, osgoi neu liniaru'r effaith.

POLISI B7 **- Safleoedd o Bwysigrwydd Archeolegol**. Gwrthodir cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai peidio) neu eu gosodiad. Ni chaniateir datblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

POLISI B10 **- Gwarchod a Gwella Ardaloedd sy'n Gwarchod y Tirlun.** Diogelu a chyfoethogi Ardaloedd sy'n Gwarchod y tirlun trwy sicrhau bod bwriadau'n cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd â nod o osgoi difrod i nodweddion a gydnabyddir.

POLISI B12 - **Gwarchod Tirlun, Parciau a Gerddi Hanesyddol**. Gwarchod tirluniau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fydd yn achosi difrod sylweddol i'w cymeriad, i'w hedrychiad neu i'w lleoliad.
POLISI B14**- Gwarchod Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Eryri**. Gwarchod Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Eryri. Gwrthodir bwriadau a fuasai'n cael effaith andwyol ar nodweddion a chymeriad arbennig Parc Cenedlaethol Eryri oni allant gydymffurfio gyda chyfres o feini prawf sydd â nod o reoli, gwella a gwarchod dynodiad y Parc.

POLISI B17 **- Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol**. Gwrthod bwriadau sy'n debygol o achosi niwed sylweddol o arwyddocâd rhanbarthol neu leol onid ydynt yn cydymffurfio gyda chyfres o feini prawf sydd â nod o warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion a gydnabyddir yn y safleoedd hyn.

POLISI B20 **- Rhywogaethau a'u Cynefinoedd sydd o Bwys Rhyngwladol a Chenedlaethol**. Gwrthod bwriadau sy'n debygol o darfu ar rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd neu achosi niwed annerbyniol iddynt onid ydynt yn cydymffurfio gyda chyfres o feini prawf sydd â nod o warchod nodweddion a gydnabyddir yn y safleoedd hyn.

POLISI B21 **- Coridorau Bywyd Gwyllt, Cysylltiadau Cynefinoedd a Cherrig Sarn**. Gwarchod cyfanrwydd nodweddion y tirlun sy'n bwysig i fflora a ffawna gwyllt oni ellid dengys bod y rhesymau dros y datblygiad yn drech na'r angen i gynnal y nodweddion a bod modd sicrhau camau lliniaru.

POLISI B23 - **Mwynderau**. Gwarchod mwynderau cymunedau lleol trwy sicrhau bod bwriadau'n cydymffurfio gyda chyfres o feini prawf sydd â nod o warchod nodweddion a gydnabyddir a mwynderau'r ardal.

POLISI B32 - **Dŵr Wyneb.** Gwrthodir bwriadau nad ydynt yn cynnwys camau i leihau llifogydd i'r eithaf neu gamau lliniaru fydd yn gostwng faint o ddŵr ffo fydd yn cyrraedd afonydd a chyrsiau dŵr a pha mor sydyn y bydd yn eu cyrraedd.

POLISI B33 – **Datblygiad sy'n Creu Llygredd neu Boendod**. Gwarchod iechyd, diogelwch neu fwynderau'r cyhoedd neu ansawdd yr amgylchedd adeiledig neu naturiol yn sgil lefelau uwch o lygredd.

POLISI C9 - **Datblygu Mwynau y tu Allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn**. Caniatáu safleoedd ar gyfer datblygu mwynau yn seiliedig ar gyfres o feini prawf sy'n ymwneud â'r egwyddorion ynghylch mwynderau trigolion lleol, effaith ar y tirlun, manylion gweithredol a'r modd o weithio'r deunydd a gynhyrchir.

POLISI C10 - **Cyfrannu Tuag at y Cyflenwad Agregau**. Cadw mewn cof bolisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o fwynau agregau a'r cyfarwyddyd perthnasol yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (NCTM)(Cymru) 1: Agregau.

POLISI C12 - **Cylchfeydd Rhagod**. Gwrthodir ceisiadau cynllunio i gloddio mwynau yn y cylchfeydd rhagod a nodir ar y map cynigion oni ellid sicrhau cylchfa ragod newydd i adlewyrchu'r isafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM1: Agregau.

POLISI C13 – **Llechi**. Rhaid i fwriadau i gloddio a gweithio llechi gydymffurfio â chyfres o feini prawf ym Mholisi C9 ynghyd â dangos cyfiawnhad geodechnegol ac economaidd, bod angen y datblygiad ac nad oes modd i'r chwarel bresennol ddiwallu'r angen hwnnw.

POLISI C14 - **Adfer ac Ôl-ofal**. Gwrthodir ceisiadau i weithio mwynau oni chynhwysir cynllun ar gyfer adfer y safle, yr ôl-ofal ohono a'r ôl-ddefnydd a wneir ohono ynghyd â manylion yr ariannu arfaethedig.

POLISI C15 – **Symud Deunydd o Domen Gwaith Mwynau**. Rhaid i fwriadau sy'n symud deunyddiau o domenni gweithio mwynau gydymffurfio â Pholisi C7 yn ogystal ag â nifer o feini prawf yn cynnwys materion yn ymwneud â symud y deunydd.

POLISI CH28 - **Effaith y Datblygiad ar Siwrneiau.** Gwrthodir bwriadau ar gyfer datblygiadau mawr os byddant yn achosi cynnydd sylweddol yn nifer y siwrneiau a wneir mewn cerbydau preifat lle nad yw camau i ostwng yr effaith amgylcheddol wedi eu cyflwyno. Cymeradwyir datblygiadau a gynllunnir a'u dylunio mewn modd sy'n annog y dulliau cludo amgylcheddol a chynaliadwy mwyaf derbyniol.
POLISI CH33 - **Diogelwch ar Ffyrdd a Strydoedd.** Caniateir bwriadau datblygu os gallant gydymffurfio â meini prawf penodol ynghylch y fynedfa i gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a chamau lleihau traffig.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisïau, cyfarwyddyd ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2000)

Polisïau, cyfarwyddyd ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2012

Polisïau, cyfarwyddyd ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

Polisïau, cyfarwyddyd ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

Polisïau, cyfarwyddyd ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn

Polisïau, cyfarwyddyd ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18: Cludiant

Polisïau, cyfarwyddyd ac egwyddorion cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: AGREGAU (Mis Mawrth 2004).

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Caniatawyd cais cynllunio C11/1140/22/LL, gydag amodau ar 30ain o Orffennaf 2013 i greu trac newydd i wasanaethu tomen lechi ynghyd â chreu mynedfa newydd. Roedd cyfyngiad amser arno ac roedd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2015.

3.2 Derbyniwyd rhybudd a chyflwynwyd manylion priodol yn unol â Rhan 23, Dosbarth B, Atodlen 2 Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir 1995 ar 26ain Hydref 2012, i symud deunydd o'r lleiaf o'r tomenni gweithio mwynau yn Nolbebin, Tanrallt.

3.3 Cais cynllunio C13/1052/22/MW ar gyfer symud deunydd o ddyddodion gweithio mwynau Dolbebin a gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar 22 Ionawr 2014.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanllyfni: | Gwrthwynebu ar sail agosrwydd at eiddo preswyl ac effeithiau sŵn. |
| Iechyd yr Amgylchedd: | Yn dilyn ailasesiad o’r cynigion datblygu a’r adroddiad sŵn diwygiedig a wnaed yn Awst 2014, mae’r ymgeisydd wedi methu dangos fod y datblygiad, o ran effaith ar sŵn, yn gallu cydymffurfio â’r canllawiau perthnasol yn MTAN1: Agregau (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004). Mae eiddo sensitif mewn cylchfa ragod fel y'u diffinnir dan bolisi C12 y Cynllun Datblygu Unedol ac fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru gydag eiddo ym Mro Silyn a Glyn Isfryn o fewn 100m i ffin y datblygiad,<br><br>Nid yw argymhelliad gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi newid a dylid gwrthod y cais ac ymhellach ni ellir asesu’r adroddiad swn diwygiedig yn llawn oherwydd yr anghysondebau canlynol; |

- Mae canlyniadau'r adroddiad swn diwygiedig (Awst 2014) yn dangos fod lefelau swn cefndirol wedi cynyddu oddeutu 8dB - 11dB wrth gymharu â'r lefelau cafodd eu nodi yn yr asesiad swn 2013. Fodd bynnag, ni ddylai canlyniadau'r asesiad diwygiedig gael eu defnyddio oherwydd i'r mesuriadau swn gael eu cymryd tra roedd gweithgareddau amaethyddol yn digwydd yn y cae cyfagos ac nid yw'r canlyniadau felly'n darparu sampl gynrychiadol o lefelau swn cefndirol yr ardal

- Mae NCTM1 yn datgan y dylai sŵn o waith mwynau gael ei gyfyngu i 10 desibel uwchlaw sŵn penodol y cefndir. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y cyfyngiad absoliwt 55dB LAeq, sydd ddim yn berthnasol ar gyfer y datblygiad hwn oherwydd bod y lefelau swn cefndirol yn is na 45 dB(A)

- Nodi fod y tywydd (gwynt) hefyd wedi codi lefelau swn cefndirol yn ystod yr arolwg Awst 2014, sydd ddim yn rhoi sampl gynrychiadol o'r lefelau swn cefndirol yn yr ardal,

- Anghytuno'r efo'r manylion yn yr adroddiad ynglŷn ag asesiad swn HGVs, lle mae sampl 1 awr allan o un diwrnod ddim yn cael ei ystyried fel gwybodaeth ddigonol i roi darlun llawn o'r llif traffig yn yr ardal.

| | |
|---|---|
| Uned Priffyrdd a Chludiant Gwynedd: | Dim gwrthwynebiad. Mae'r cynnig ar gyfer adeiladu mynedfa i gerbydau a'r effeithiau posibl ar y rhwydwaith priffyrdd heb newid ac fe argymell yr un nodiadau a'r amodau ar gyfer y cais blaenorol, sef:<br>• ran cludiant, mae symud 4-6 llwyth y diwrnod ar gyfartaledd yn dderbyniol ac yn annhebygol o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.<br>• Dengys croestoriadau gyda'r cais nad yw mwyafrif y cloddio union ger Lôn Ddŵr ac, o'r herwydd, roedd yn annhebygol o danseilio seilwaith y ffordd leol. |
| Dŵr Cymru: | Dim ymateb |
| Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd: | Gwrthod caniatâd cynllunio oni bai y gellir dangos fod y cynnig yn gallu digolledu ar gyfer colled Bioamrywiaeth:<br>• Bydd y gwaith cloddio'r domen lechi a'r ardal o onnen a helyg aeddfed yn arwain at golled cynefin bioamrywiaeth werthfawr (cynefin mosäig agored o dir a ddatblygwyd yn flaenorol) rhestr o dan Ddeddf y Cymunedau Gwledig 2006 yr Amgylchedd Naturiol a Safle Bywyd Gwyllt, |

- Tomen lechi bychan ac ochr gorllewinol ardal y cais, h.y. yr ardaloedd sydd ddim i'w gweithio, yn gynefin sy'n bodoli eisoes ac nid ydynt yn gyfystyr â mesuriadau digolledu, a ddylai gynnwys plannu coed a thrawsleoli cynefinoedd,
- Pryderon ynghylch ag effeithiau ar fioamrywiaeth anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r cynnig, h.y. adeiladu trac ac ardaloedd datblygiad ategol posibl,
- Datganiad Dull Ecolegol 2014 yn darparu mesuriadau addas i osgoi niwed i ymlusgiaid, ac ni ddylai unrhyw lystyfiant, llwyni neu goed gael eu clirio yn ystod misoedd yr haf er mwyn osgoi aflonyddu ar adar sy'n nythu (amod).

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Dim gwrthwynebiad gyda'r sylwadau a ganlyn fel y cyflwynwyd gyda'r cais blaenorol:

- Agweddau o ganiatáu ac osgoi llygredd yn amodol ar gyngor a roddwyd cyn cyflwyno'r cais wedi eu hanfon ar 29ain o Fai 2012, sy'n cadarnhau bod nifer o gyrsiau dŵr yn yr ardal yn gysylltiedig ag Afon Llyfni,
- Ymrwymiad statudol i rwystro dŵr ffo rhag llifo i gyrsiau dŵr ac, felly, mae angen gwarchod y cyrsiau dŵr hyn rhag gronynnau bach o lechi gan fod llechi'n cynnwys alwminiwm a fydd yn arwain at ostyngiad yn nifer y pysgod os caniateir iddo fynd i mewn i Afon Llyfni,
- Yn fodlon y cynhaliwyd yr Adroddiad Ecolegol i safon dderbyniol a chynghorir ymhellach lynu wrth y camau lliniaru arfaethedig,
- Bwriad yn annhebygol o gael effaith andwyol ar y llygoden ddŵr, y dyfrgi a'r ystlum,
- Argymell ceisio cyngor pellach oddi wrth ymgynghorydd ecolegol mewnol y Cyngor ar fioamrywiaeth leol a rhywogaethau a chynefinoedd eraill a restrir yn Adran 42 Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Awdurdod Parc Cenedlaethol:

Dim sylwadau ar y cais

Scottish Power:

SP Powersystems gydag offer a chyfarpar yng nghyffiniau cyffredinol y datblygiad arfaethedig. Dylid cynghori'r datblygwr o'r angen i gymryd camau priodol i atal unrhyw berygl bosibl mewn perthynas ag offer trydanol ac i gysylltu â SP Powersystems yn uniongyrchol.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Y cyngor isod yr union fel y rhoddwyd ar gyfer y cais blaenorol, C13/1052/22/MW.

- Cytuno gyda chasgliadau'r Asesiad Archeolegol a'r Adroddiad Asesu Arwyddocâd Effaith Datblygu ar Dirwedd Hanesyddol 2 (Adroddiad 2),
- Bydd y gwaith cloddio mwynau arfaethedig yn cael

effaith ar nifer o weddillion archeolegol ôl-canoloesol a bydd yn bosib y bydd rhagor o weddillion, sydd wedi eu cuddio ar hyn o bryd dan y domen lechi, yn cael eu datgelu yn ystod y gwaith cloddio,

- Pe rhoddid caniatâd cynllunio, cynnwys amod cynllunio i sicrhau y cymerir camau archeolegol priodol cyn y gwaith datblygu arfaethedig ac yn ystod y gwaith hwnnw i sicrhau lefel o gofnodi archeolegol y cytunir arno,
- Daw asesiad Adroddiad 2 i'r casgliad bod rhyw gymaint o effaith ar Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle oherwydd bod yr ardal gloddio'n cael ei gwarchod i'r gogledd ac i'r dwyrain gan lethrau bryniau naturiol a thomenni llechi.
- Hanfodol na therfir ar y rhan o'r domen sy'n wynebu'r gogledd gan y gallai unrhyw wyro oddi wrth gynlluniau'r cais gael effaith sylweddol ar y tirlun o ddiddordeb hanesyddol sydd wedi ei gofrestru,
- Awdurdod i ystyried rhyddhau camau monitro effeithiol o gofio y gallai peiriannau'r gwaith y tu allan i'r man datblygu darfu'n ddamweiniol a chymryd tir.

Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd:

Dim ymateb ar y cais yma, ond fe gyflwynwyd sylwadau ar y cais gwreiddiol yn cynghori:

- Ni chredir bod y bwriadau cyfredol yn cael effaith negyddol ar gais y Chwareli Llechi i fod yn Safle Treftadaeth y Byd. Fodd bynnag, gallai gosod cynsail am ragor o hawliau cynllunio arwain at effaith negyddol.
- Bydd bwriadau cynllunio tebyg i ddatblygu mwynau'n cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau ac nid fel mater o gynsail.
- Gyda safleoedd o bwysigrwydd archeolegol rhaid i nodweddion penodol gael eu cofnodi neu eu cadw.
- Bydd y bwriad yn cael effaith gymedrol ar y tirlun hanesyddol. Fodd bynnag, gall datblygiadau pellach gael effaith andwyol ar uniondeb priodoliaethau'r Tirlun Hanesyddol yn wyneb y cais i fod yn Safle Treftadaeth y Byd.
- Mae cyfleoedd cyflogaeth yn debygol o gael croeso'n lleol.
- Effeithiau posib sy'n cael eu priodoli i sŵn, llwch a llygru cyrsiau dŵr ac sy'n cael effaith ar y weledigaeth sy'n datblygu ar gyfer Dyffryn Nantlle fel cyrchfan awyr agored i dwristiaid.

Arolygiaeth Chwareli: Dim ymateb

| | |
|---|---|
| Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cyngor Gwynedd: | Dim ymateb ar y cais yma, ond fe gyflwynwyd sylwadau ar y cais gwreiddiol yn cynghori:<br>• Mae cwrs dŵr yn rhedeg trwy'r safle neu mae'n gyfagos iddo.<br>• Argymell yr amodau a ganlyn pe rhoddid unrhyw ganiatâd, a hynny er lles mwynderau'r ardal ac eiddo cyfagos;<br>• Bydd y datblygwr yn diogelu'r cwrs dŵr ac yn cyflwyno manylion darpariaeth o'r fath i Gyngor Gwynedd eu caniatáu yn unol ag Adran 23 (1) Deddf Draenio Tir 1991,<br>• Y datblygwr fydd yn ysgwyddo cost diogelu'r cwrs dŵr. At hyn, bydd yr amodau uchod yn berthnasol os yw'r datblygwr yn bwriadu sianelu'r cwrs dŵr yn unol ag Adran 263 Deddf Iechyd Cyhoeddus ac Adran 23(1) Deddf Draenio Tir 1991. |
| Betsi Cadwaladr University Health Board: | • Maint y datblygiad yn gymharol fach gyda 7 eiddo preswyl wedi lleoli o fewn cylchfa ragod ddamcaniaethol ac 36 eiddo arall wedi'u lleoli o fewn 200 metr o'r trac mynediad a ganiateir,<br>• Potensial ar gyfer effeithiau sŵn a llwch,<br>• Asesiad Sŵn yn cadarnhau sŵn cefndir yn isel a fyddai'r gweithgareddau arfaethedig yn fwy na'r terfynau sŵn MTAN ger tri derbynnydd sŵn-sensitif. Nodwyd bod y lefelau sŵn a ragwelir yn cael eu cyfrif amdanynt yn y manylion y cais fel yr achos gwaethaf, gan dybio pob offer yn gweithio yn y man agosaf at bob derbynnydd,<br>• Ni ragwelir sŵn gweithredol arferol yn fwy na 55dB a gweithrediadau malurio i beidio â mynd dros y terfyn sŵn dros dro o 67Db yn MTAN1,<br>• Effaith Sŵn o draffig yn ddibwys o'i gymharu â symudiadau presennol ar y B4418,<br>• Niwsans cyfyngedig ar eiddo preswyl agosaf. Gosod mesurau lliniaru amlinellwyd yn yr adroddiad effaith sŵn er mwyn sicrhau cadw at egwyddorion 'Technoleg Gorau sydd Ar Gael' bob amser,<br>• Yn cytuno â chanlyniadau'r asesiad effaith llwch, bod cynnydd bach yn ansawdd aer lleol o ganlyniad gweithredu'r malwr yn debygol am gyfnod byr a ni ddylai ar unrhyw adeg fod yn fwy na'r amcanion ansawdd aer,<br>• Amodau cynllunio i liniaru effeithiau sŵn a llwch,<br>• Effeithiau cronnus posibl o 5 gwaith llechi gweithredol o fewn radiws o 2km & potensial ar gyfer ystyriaethau iechyd cyhoeddus pellach i'w cymryd i ystyriaeth os yw'r gweddill o'r 2 filiwn o dunelli o adnodd llechi'n cael ei ddatblygu yn y dyfodol. |

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybudd mewn dau leoliad yn agos i'r safle ac anfonwyd llythyr at drigolion cyfagos ar 17eg Gorffennaf 2014 yn ogystal â rhybudd yn ymddangos yn y wasg leol ar 24ain o Orffennaf 2014. Gwnaed ymgynghoriad pellach ar ddiwygiadau i'r cais ym mis Tachwedd 2014 gyda dau rybudd safle wedi'i gosod yng nghyffiniau'r cais.

Mae deiseb sydd wedi'i arwyddo gan 293 o unigolion yn gwrthwynebu'r cynnig ar sail effaith andwyol ar y tirwedd, tai yn yr ardal a bywyd gwyllt. Mae 231 llythyr o wrthwynebiad ychwanegol wedi dod i law ar y pryd ysgrifennwyd yr adroddiad, yn tynnu sylw at y pryderon a ganlyn:

- Effaith negyddol ar fwynderau trigolion lleol, ardal ddifreintiedig amcan 1 a busnesau lleol. Manteision economaidd amheus o fwriad tymor byr ac a gyfyngir gan amser.
- Agosatrwydd tai a datblygiad sensitif at y bwriad ac sydd gyda golwg uniongyrchol dros y gweithrediadau. Cylchfa ragod 200m yn gymwys yn unol â Pholisi C12 y Cynllun Datblygu Unedol,
- Yn groes i gyfarwyddyd polisi cynllunio cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Unedol presennol,
- Adnoddau digonol o wastraff llechi eisoes yn bodoli yn y heb yr angen i gael gwared â deunydd mor agos i eiddo preswyl. Cynnig yn groes i bolisi C10 o'r CDU Gwynedd a'r angen am y mwyn. Chwareli eraill yn Nyffryn Nantlle ar hyn o bryd gyda digon o gronfeydd wrth gefn ac yn gweithredu ar lai o gapasiti,
- Nid yw'r cais presennol yn glir a cheir mater ynghylch gosod cynsail i gael gwared â gweddill yr adnodd, sef dwy filiwn tunnell a gedwir yn y domen. Effaith estynedig bosib ar y mwynderau.
- Mae'n cael effaith ar y defnydd hamddenol a wneir o Lôn Ddŵr, cerdded, marchogaeth a beicio. Effaith ar fannau chwarae.
- Sŵn cefndir isel ar hyn o bryd, distawrwydd ardal wledig, nid oes modd cymharu lefelau sŵn ac amlder y tarfu â'r sŵn presennol a grëir gan beiriannau amaethyddol.
- Camddehongliad o NCTM1o ran cyfarwyddyd rheoli sŵn, archwiliad annigonol dilysrwydd yr adroddiad ac anghysondeb mewn lefelau lleihau sŵn a ragwelir a defnydd o'r safonau BS perthnasol,
- Cwestiynu'r lefelau swn ar gyfer offer a pheiriannau fel sail ar gyfer rhagfynegi'r effaith swn,
- Cynnydd o 15 - 29dB uwchlaw'r sŵn cefndir presennol yn andwyol i fwynderau'r ardal. Lefel terfynol o 55dB ddim yn gymwys ar gyfer y safle yma,
- Cymhwysedd lefel dros dro o 67db ar gyfer gweithgareddau malurio a sgrinio,

- Gwaith malu a sgrinio, cloriannu pwysau economaidd yn erbyn effeithiolrwydd camau lleddfu sŵn. Union fanylion y peiriannau a chyfarpar heb eu rhestru,
- Ymarferoldeb monitro/ gweithredu ar y camau lliniaru sŵn a llwch a nodir yn y cais,
- Effeithiau cronnol y datblygiad gyda gwaith mwynau eraill yn yr ardal.
- Gweithio ar benwythnos (chwe diwrnod yr wythnos) & oriau gwaith,
- Topograffi'r tir heb ei asesu'n briodol o ran effaith sŵn (effeithiau amffitheatr naturiol) & chyfnodau'r gwaith lle fydd eiddo cyfagos yn agored i swn peiriannau yn ystod gwaith cloddio ar lefelau uwch y domen,
- Nid yw data meteoroleg a ddefnyddir yn y cais (Capel Curig) yn berthnasol i amodau tywydd yr ardal, a'r effeithiau yn sgil hynny ar sŵn a llwch.
- Effaith negyddol y datblygiad ar ansawdd aer lleol a'r posibilrwydd o gael effaith ar unigolion gyda chlefydau anadlol, risg o silicosis,
- Effaith cludo ar ardal ehangach, traffig, llwybrau cludo, mwd a detritws yn effeithio cerddwyr a defnyddwyr y ffordd,
- Sadrwydd y domen ac effaith y gweithgareddau ar ddiogelwch ar y ffordd ar hyd Lôn Ddŵr,
- Effaith ar gymeriad y tirlun a'r effaith weledol gan gynnwys ar Dirlun Hanesyddol Dyffryn Nantlle,
- Effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol, archeolegol, cymdeithasol a diwylliannol,
- Cadwraeth natur, effaith ar fflora a ffawna, gallu tomenni gwastraff llechi i ail-greu a chefnogi cynefin a bywyd gwyllt, colli safle ymgeisydd bywyd gwyllt a chynefin tir gwlyb Rhestr A.42 Deddf NERC 2006, coed a chynefin ar gyfer rhywogaethau adar ac ystlumod sydd wedi'u gwarchod,
- Effaith estynedig ar gadwraeth natur, rhywogaethau heb eu cynnwys oherwydd amseru'r arolwg ecolegol.
- Dim cynnigion na chynlluniau adfer manwl,
- Yn groes i gyfarwyddyd lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd i hyrwyddo bioamrywiaeth.
- Posibilrwydd y peryglir cais Cyngor Gwynedd i UNESCO i gynnwys y Chwareli Llechi yn Safle Treftadaeth Byd.
- Awgrymu dulliau trafnidiaeth amgen,
- Effaith y cynnig ar wead cymdeithasol , ieithyddol a diwylliannol y gymuned yn groes i bolisi A2 o'r CDU Gwynedd & potensial i golli adnodd cymunedol yn Tanrallt,
- Yn groes i bolisi CDU A3 mewn perthynas â dull gweithredu rhagofalus ac economi gynaliadwy lle na ellir gweithredu lliniaru priodol i leddfu niwed difrifol i'r gymuned a'r amgylchedd lleol ,

- Cynnig yn groes i bolisïau C9 , C12 & C15 o'r CDU Gwynedd mewn perthynas â'r effaith ar fwynderau trigolion lleol ,
- Effeithiau niweidiol sŵn a llwch ar ddau o fusnesau hamdden a thwristiaeth sy'n seiliedig yn Tanrallt a allai arwain at golli swyddi i 17 o bobl mewn cysylltiad â rhedeg a gwasanaethu'r cyfleusterau hyn. Bydd y cynnig ar gyfer chwarela yn y lleoliad hwn yn cyfaddawdu nod ac amcanion y CDU i ddatblygu twristiaeth , llety gwyliau hunan gwasanaethol a marchnad arbenigol ar gyfer gweithgareddau arbenigol dan bolisïau D13 a D14 .
- Bydd cyfleoedd gyflogaeth a gynigir yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y galw o safleoedd sydd eisoes yn bodoli, gan arwain at golli swyddi,
- Effaith y cynnig ar domennydd gwastraff llechi fel nodwedd o'r amgylchedd hanesyddol,
- Risgiau diogelwch yn gysylltiedig â gwaith mwynau sydd wedi'i leoli'n agos i ardal preswyl,
- Y cais heb ei newid, dim mesuriadau lliniaru yn sgil y rhesymau i wrthod C13/1052/22/MW,
- Cynaliadwyedd y bwriad a pha mor addas yw gwastraff llechi i'w ddefnyddio fel agregau,
- Gwybodaeth annigonol ar effaith y bwriad ar yr Amgylchedd ddŵr lleol a'r potensial i dŵr wyneb ffo wedi ei lygru yn llygru isafonydd sy'n llifo i Afon Llyfni,
- Dim bwriad ar gyfer isadeiledd ddraenio gan gynnwys lleoliad cyfarpar golchi olwynion, storfa deunyddiau peryglus (tanwydd & thoiledau) & capasiti i ddelio â deillion gwastraff (gronynnau mân),
- Gwrthddweud, anghywirdebau, gwallau, hepgoriadau ym manylion y cais,
- Hoel troed yr ardal brosesu & capasiti i ymgymhwyso peiriannau a chyfarpar, adnoddau lles a phentyrrau stoc,
- Gweithrediadau amaethyddol yn digwydd yn y cae cyfagos yn ystod yr arolwg mesuriadau swn yn Awst 2014,
- Hyfywdra technegau pigo wrth law i gynhyrchu agregau. Pryderon yn aros ynglŷn â defnydd offer a pheiriannau,
- Dau adroddiad annibynnol yn casglu buasai'r lefelau swn gweithredol yn mynd yn uwch na'r lefelau swn sydd wedi'u rhagfynegi yn yr adroddiad swn 2013.

Yn ogystal â'r uchod, y farn oedd nad oedd y sylwadau a ganlyn yn wrthwynebiadau cynllunio dilys:

- Diffyg gwybodaeth am y cais cysylltiedig i greu trac mynediad dan gais rhif C11/1140/22/LL a ganiatawyd ym mis Gorffennaf 2013,

- Dilysrwydd y rhybudd dan Ran 23B y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir i symud y domen gwastraff llechi llai oedd gerllaw yn Nolbebin, Tanrallt,
- Gwrthwynebiadau byr a diangen, e.e. *‘nid yw'n iawn’*, *‘peidiwch â’i wneud o’* ac *‘Rwyf yn gwrthwynebu’*,
- Cymorth gan y Llywodraeth i ailraddio a sefydlogi'r domen yn 80au'r ganrif ddiwethaf,
- Hyfywdra cyllidol y gwaith,
- Effaith ar brisiau tai,
- Perchnogaeth tir a thystysgrifo,
- Mynediad i Lon Ddŵr,
- Camgymeriadau di-faterol yn adroddiad y cais, e.e. enw’r ymgeisydd ac enw’r domen,
- Y fenter dim ond yn gyfle ariannol i’r ymgeisydd,
- Yr angen am Asesiad Amgylcheddol,

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio o bwys:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Nid yw'r datblygiad a ganiateir ac a sicrhawyd dan Ran 23B y Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ym mis Hydref 2012 i symud deunydd o'r domen gweithio mwynau gerllaw yn gosod cynsail yng nghyswllt y cais hwn am ganiatâd cynllunio. Bydd yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant, a hynny yn unol â pholisïau'r Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â'r cyfarwyddyd polisi cynllunio rhanbarthol.

5.2 Ym mis Mehefin 2008, penderfynodd Bwrdd Cyngor Gwynedd gymeradwyo'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a gynhyrchwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Fe ymgynghorwyd ar adolygiad o’r Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru, sydd eisoes wedi’i fabwysiadu gan oll awdurdodau lleol Cymru yn ogystal â derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru)1: Agregau (NCTM1), er mwyn gosod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau yr oedd modd ei reoli'n gynaliadwy. Prif bwrpas y datganiad yw nodi'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth Gogledd Cymru.

5.3 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau y caiff defnyddiau mwynau eu defnyddio'n gynaliadwy fel bod modd iddynt wneud cyfraniad i ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Mae gan Wynedd hanes hir o gloddio mwynau ac mae'n parhau'n rhan bwysig o'i gwead economaidd a chymdeithasol. Ceir tomenni helaeth o amrywiol ddeunyddiau sy'n addas ar gyfer agregau yng Ngogledd Cymru, yn enwedig felly graig igneaidd, tywod a gro, a charreg galch. Yn draddodiadol, mae gweithio llechi yng Ngwynedd wedi ei gysylltu gyda gwaith cynhyrchu deunydd toi o ansawdd uchel ond, yn fwy diweddar, fe'i defnyddid yng nghyswllt slabiau wedi eu llifio'n bensaernïol, deunyddiau adeiladu addurnedig yn ogystal â defnyddio gwastraff llechi fel agreg eilaidd yn lle adnoddau crai traddodiadol.

5.4 Derbynnir yr egwyddor o ail-weithio tomenni llechi mewn egwyddor fel dewis arall i fwriadau'n ymwneud ag ennill a gweithio'r deunydd o'r graig naturiol.

5.5 Gyda chyflwyniad yr ardoll ar agregau yn 2002, gwnaed mwy o ddefnydd o wastraff llechi yn lle'r graig galed grai, o gofio nad oedd cyfradd sylfaenol o £2.00 y dunnell o agregau yn cael ei rhoi ar lechi. Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn cydnabod bod gwastraff llechi'n adnodd gwerthfawr y mae modd ei ddefnyddio fel ffynhonnell arall o agreg ac sy'n tynnu'r pwysau oddi ar adnoddau mwynol crai. Er hynny, mae'n cydnabod, hefyd, ei bod yn bosib nad cyflenwad o wastraff llechi ar gyfer defnydd agreg, yn yr ystyr ehangach, yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy o ran masnach na'r amgylchedd. Er enghraifft, er mwyn cwrdd â'r manylion gofynnol o ran gwastraff llechi, efallai y buasai'n rhaid prosesu - gwaith sydd, ynddo ei hun, yn defnyddio ynni. Yna defnyddir y cynnyrch hwn i ddisodli cynnyrch sydd eisoes ar gael fel isgynnyrch gwaith prosesu mewn chwareli creigiau crai.

5.6 O ran llechi fel ffynhonnell o agreg, dywed dogfen ymgynghorol adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol bod llechi mâl yng Ngogledd Cymru a ddaw un ai o wastraff llechi (fel isgynnyrch cynnyrch deunydd toi) neu wedi eu cloddio'n benodol ar gyfer eu defnyddio fel agreg crai, i'w gweld yn helaeth ym mhatrwm cyffredinol y cyflenwad, yn enwedig felly yng Ngwynedd. Caiff y ddau gategori eu cynnwys yn y ffigyrau cyffredinol ar gyfer cynhyrchu creigiau mâl yn adroddiadau Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a, thros y cyfnod sylfaenol o ddeg mlynedd, roeddynt i'w cyfrif am rhwng 5.3% ac 16.2% o gyfanswm gwerthiant creigiau mâl, gyda thystiolaeth o duedd yn codi yng nghyfran gwerthiannau gwirioneddol oedd ar eu huchaf yn 2007. Er hynny, dywed yr adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol bod cynhyrchu llechi fel agreg, fel gyda chronfeydd eraill o greigiau caled, wedi syrthio yn ystod y dirwasgiad er bod cyfran y llechi yng nghyfanswm gwerthiant creigiau mâl yn parhau'n uchel.

5.7 Wrth ystyried gofynion rhanbarthol, mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cadarnhau y caiff y rhan fwyaf o agreg llechi ei ddefnyddio'n lleol yng Ngogledd-orllewin Cymru, ac nad oes fawr i awgrymu bod gofyn i'r patrwm presennol o gyflenwad un ai newid neu fedru newid. Gallai hyn, o bosib, ddigwydd pe ceid cynnydd sylweddol yn yr Ardoll ar Agregau, gan roi i agregau llechi fantais bellach o ran pris. Fodd bynnag, gallai'r gwrthwyneb fod yn wir pe gwneid i ffwrdd â'r Ardoll ar Agregau, a hynny'n unol â'r her gyfreithiol barhaus y mae Cymdeithas Agregau Prydain yn ei dilyn.

5.8 Yng nghyswllt yr angen am y datblygiad, dywed Polisi C15 y Cynllun Datblygu Unedol bod yn rhaid i fwriadau i symud deunydd o domen gweithio mwynau gydymffurfio â chyfres o feini prawf ym Mholisi C9 ac C10 o gofio'r polisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o gronfeydd mwynau wrth gefn, a hynny'n unol â'r cyfarwyddyd yn NCTM1 (Cymru:) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol.

5.9 4.4 miliwn tunnell yw cyfanswm y dosbarthiad ar gyfer Gwynedd, fel y'i cyfrifwyd gan Adolygiad Cyntaf y Datganiad Technegol Rhanbarthol, a hynny am dywod a enillwyd o'r tir a 6.75 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Mae'r rhain yn cymharu gyda banciau tir o 0.7 miliwn tunnell ar gyfer tywod a gro ac 8.51 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl (22 o flynyddoedd hyd at 31ain Rhagfyr 2010). O'r herwydd, mae diffyg o ran tywod a gro a bydd rhaid nodi cyfanswm o 3.7 miliwn tunnell ar eu cyfer yn y Cynllun Datblygu Lleol. O gofio bod rhyw gymaint o gerrig mâl wrth gefn yn weddill, gan gynnwys llechi, ni fydd raid wrth ddyraniadau penodol o gerrig mâl. Caiff y ffigyrau wrth gefn eu seilio ar safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ac a gyflwynir i ysgrifennydd y Gweithgor Agregau Rhanbarthol fel rhan o'r adroddiad blynyddol. O ran y gwastraff llechi sydd wrth gefn, er ei bod yn anodd asesu'n fanwl, amcangyfrifwyd bod oddeutu ugain miliwn tunnell o wastraff llechi ar gael i'w

gweithio fel isgynnyrch o gynhyrchu llechi toi mewn safleoedd ym Mlaenau Ffestiniog a Bethesda. Ceir, hefyd, weithio linteri yn Llechwedd, lle ceir lefel amhenodol ond, o bosib, enfawr o lechi wrth gefn, gydag ardal gloddio a ganiateir yn ymestyn 750,000 $m^2$.

5.10 Eisoes, gwasanaethir y farchnad leol gan safleoedd gweithiol yn Nhŷ Mawr/Tyn y Weirglodd, Pen yr Orsedd a Moel Tryfan gyda mwy wrth gefn yn Nhwll Llwyd. Nid oes tystiolaeth i awgrymu nad oes modd i safleoedd presennol, o ran capasiti a deunydd wrth gefn, ymdopi gyda'r galw cyfredol neu'r galw a ragwelir ar gyfer cynnyrch llechi. Nid oes ddadl chwaith fod gan y domen y gallu i gyflenwi llechi o nodwedd lliw a gwedd sydd yn wahanol i gyflenwad llechi o safleoedd gweithredol ac o ran angen lleol neu ranbarthol, nid oes cyfiawnhad felly dros safle cloddio llechi newydd yn Nyffryn Nantlle.

5.11 Er bod yr egwyddor o gloddio mwynau eilaidd yn dderbyniol, wedi ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio eraill o bwys, credir, o ran angen lleol a rhanbarthol, nad yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda Pholisïau a Chyfarwyddyd Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol nag â gofynion Polisi C9, C10 ac C15 y Cynllun Datblygu Unedol.

5.12 Yn ogystal ag egwyddorion yr angen am y datblygiad, dyma'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn:-

- Sensitifrwydd y tirlun - Ardal Gwarchod y Tirlun a Thirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol
- Effaith y bwriad ar fioamrywiaeth leol gan gynnwys y posibilrwydd o lygru’r amgylchedd dŵr lleol.
- Bod gofyn monitro gwaith chwarelydda a'r effaith ar fwynderau'r ardal h.y. effaith sŵn, llwch, cludo ac oriau gweithio.
- Effaith gronnol cloddio mwynau gyda gwaith arall yn yr ardal.
- Y dymuniad economaidd a chymdeithasol i hyrwyddo cyflogaeth leol.
- Y posibilrwydd o ddefnyddio camau i liniaru, yn y tymor hir, ddirywiad yn y tirlun, yn seiliedig ar weithio'n barhaus am gyfnod penodol o amser a'r cyfleoedd ar gyfer adfer yn briodol.

**Mwynderau Gweledol**

5.13 Gellir disgrifio cymeriad y tirlun fel cyfuniad o elfennau, patrymau, ansawdd y tirlun, maint ffurf y tir a'r defnydd a wneir ohono a'r rhain oll sy'n gwneud ardal yn wahanol ac yn creu ymdeimlad o le. Mewn tirluniau chwareli llechi ceir esthetig unigryw yn creu nodweddion o ddiddordeb cadwraeth natur a threftadaeth ddiwydiannol.

5.14 Rhan yn unig o domen gwastraff lechi sydd yn yr ardal gloddio ac mae'n nodwedd amlwg yn y tirlun a geir ar lawr Dyffryn Nantlle rhwng anheddiad Tanrallt a stad Bro Silyn,. Ym Mholisi C15 y Cynllun Datblygu Unedol, ‘*symud deunydd o domen gwaith mwynau’*, nodir y meini prawf datblygu ar gyfer bwriadau o'r fath a ganiateir ar yr amod, ymhlith gofynion eraill, na fydd y gwaith symud deunydd yn achosi niwed sylweddol i fwynder gweledol ac na fydd y gwaith yn creu niwed sylweddol i'r Amgylchedd hanesyddol neu dreftadaeth ddiwylliannol diwylliant llechi Cymru.

5.15 Mae Asesiad o Arwyddocâd o'r Effaith ar Ardaloedd Tirlun Hanesyddol (Asesiad o Arwyddocâd) wedi ei gyflwyno i gefnogi'r cais ac mae'n arfarnu effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol (ffisegol ac fel arall) y datblygiad ar y tirlun hanesyddol o'i gwmpas. Rhoddir, hefyd, ddetholiad o safbwyntiau yn dangos lleoliad y datblygiad yng nghyd-destun ei leoliad mewn rhannau penodol o'r tirlun.

5.16 Yn ôl yr Asesiad o Arwyddocâd, mae angen ystyried y bwriad yn wyneb ei effaith ffisegol uniongyrchol ar ddwy ardal nodwedd yn y Tirlun Hanesyddol, 09 Chwareli Llechi Nantlle a 49 Llawr Dyffryn Nantlle ond, yn ogystal â hynny, yr effaith anuniongyrchol (anffisegol, gweledol yn bennaf) ar Ardaloedd Nodweddion Tirlun Hanesyddol 07 Tal y Sarn, 08 Gloddfa'r Coed, 09 Chwareli Llechi, 15 Nebo, 25 llethrau isaf Moel Tryfan & 49 Llawr Dyffryn Nantlle.

5.17 Daw'r Asesiad o'r Arwyddocâd i'r casgliad y byddai effaith gyffredinol y bwriad yn cael effaith gymedrol ar Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Nantlle, ond gydag effeithiau uwch yn lleol ar Dalysarn a Gloddfa'r Coed. Mae'r effaith ar ardaloedd cymeriad tirlun eraill wedi eu lleddfu rhyw gymaint gan y bydd y datblygiad wedi ei warchod yn rhannol gan y silff naturiol ar lethr y bryn sy'n cuddio'r chwarel o'r de a gweddill y domen o'r gogledd ac o'r dwyrain. At hyn, yn ôl yr adroddiad, dylid, fodd bynnag, fod yn ofalus rhag tarfu ar broffil y rhan honno o'r domen, nad yw'n rhan o'r cais hwn. Ni ddylid tarfu ar y rhan honno o'r domen sy'n wynebu'r gogledd, yn enwedig felly gan ei bod yn gwarchod y datblygiad arfaethedig rhag prif ardal chwarelydda Nantlle.

5.18 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cytuno gyda chanfyddiadau'r adroddiad sy'n dod i'r casgliad y byddai rhagor o ddatblygiad cyfatebol neu fwy ar yr un ardal o domen , o bosib, yn cael effaith sylweddol ar dirlun hanesyddol eithriadol Dyffryn Nantlle.

5.19 Yn wyneb yr uchod, dylid cadw mewn cof y bu rhan o'r cais sydd am y terfyn â Lôn Ddŵr yn rhan o gynllun adfer yn 80au'r ganrif ddiwethaf - cynllun wedi ei ariannu gan y Llywodraeth - i ailraddio cloddiau'r domen ac ers hynny tarfwyd ar gyfluniad y rhan honno o'r domen. Er gwaethaf hynny, yn sgil y gwaith adennill, mae mannau gwastad y domen a rhannau o gloddiau'r domen wedi gweld gwair yn aildyfu yno, llystyfiant ar hyd y ddaear a choed yn sefydlu ar rannau o'r domen.

5.20 Yn ôl datganiad y cais, y bwriad yw symud 150,000 tunnell o wastraff llechi dros gyfnod o oddeutu wyth mlynedd mewn strategaeth un-cam gyda'r gwaith adfer yn cael ei weithredu wedi hynny ar ddiwedd y gweithrediadau mwynau. Mae'r fath strategaeth yn adlewyrchol o hoel troed cyfyngedig y gwaith arfaethedig ond yn ogystal fe nodir ym manylion y cais; "*additional parts of the tip may be excavated in the long-term, ….. subject to separate planning applications and ecological assessments*".

5.21 Mae cysylltiad clos rhwng y fethodoleg ar gyfer adfer y safle a lliniaru cynefin ac mae'r dull cyffredinol a nodir yn natganiad cais a'r adroddiad ecolegol yn adlewyrchu'r wahanol dechnegau sydd eisoes wedi'u gweithredu ar lawer o weithfeydd llechi yng Ngwynedd. Mae'r strategaeth yn cydnabod fod y domen lechi yn gynefin i amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid ac mae'r amcanion adfer yn anelu at wella bioamrywiaeth drwy hyrwyddo math o fosaig cynefinoedd a fydd yn annog amrywiaeth fwy o infertebratau, adar, ymlusgiaid ac anifeiliaid eraill. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys cyfundrefn ôl-ofal a monitro i'w cytuno ymhellach gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau.

5.22 Tra bod y fethodoleg a'r dull cyffredinol tuag at adfer yn dderbyniol mewn egwyddor, mae diffyg eglurder yng nghynigion y cais ran lluniadau neu gynlluniau i nodi amcanion adfer penodol ar gyfer topograffeg safle amrywiol, h.y. ardaloedd gwastad o'r ddaear wreiddiol a llethrau gwastraff llechi fel y dangosir ar gynlluniau & thrawsluniau'r cais. Er bod llethr y domen bresennol sy'n wynebu Tanrallt i'r rhan fwyaf, yn arglawdd serth o wastraff llechi tua 25m o uchder, nid yw'n strwythur cwbl

unffurf. Wrth edrych yn fanylach mae ei gyfluniad yn cynnwys cyfres o ddyddodion tonnog, a ellir eu priodoli i'r drefn tipio ond hefyd, mae nodweddion megis 'gwaliau' a phocedi o weithio eilaidd yn gyffredin ar nodwedd y domen hon. Mae tyfiant yn brin ar dir anodd o'r fath, ond serch hynny mae pocedi o lystyfiant, coed a llwyni lle mae gwyneb y domen wedi'i gywasgu gyda llechi mân neu lle mae sbwriel dail yn casglu mewn pantiau.

5.23 Mae sgôp y gwaith adfer wedi'i gyfyngu gan raddfa'r gwaith mwynau a gweithredu strategaeth adfer un cam. O ran effaith weledol tymor hir, bydd y datblygiad yn ffurfio toriad serth o fewn llethrau'r domen gan arwain at domen lechi sydd wedi'i weithio allan yn rhannol ac y prif bryder yma yw triniaeth y gwynebau sydd wedi'u cloddio er mwyn annog tyfiant planhigion. O ystyried y strategaeth adfer un-cam a nodir yn y cynigion cais, fydd rhannau uchaf o wynebau'r gwaith yn agored drwy gydol y gweithrediadau heb unrhyw fudd adfer net am gyfnod hwyach ar ddiwedd y cloddio. Ystyrir y gallai ymagwedd fesul cam gael eu cymhwyso ar gyfer y meinciau uchaf er budd mwynderau gweledol yr ardal. Mae paragraff 97 o MTAN1 yn berthnasol yma lle mae'n datgan; " *….restoration and aftercare must provide the means to maintain or, wherever possible, enhance at the earliest opportunity the long-term quality of land that has been used for mineral extraction, so that it may become suitable for a beneficial use*". Yn unol â'r drefn arferol ar gyfer cynlluniau adfer a ddisgwylir gyda cheisiadau cynllunio fel hyn, dylai proffil y domen terfynol fod yn ddarostyngedig i gynlluniau manwl, lluniadau a strategaeth adfer i gynnwys ardaloedd lloches a byndiau fel y nodwyd yn yr adroddiad ecolegol, er mwyn ail-greu amrywiad mewn strwythur sy'n nodweddiadol o'r domen bresennol.

5.24 Dywed y Cynllun Datblygu Unedol dan Bolisi C14, '*Adfer ac Ôl-ofal*', "*….Cyn penderfynu ar gais, rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon y gellir adfer y safle'n gyflawn a'i ôl-ddefnyddio'n fuddiol o fewn terfyn amser cydnabyddedig pa mor hir bynnag y pery'r datblygiad*". At hyn, yn ôl meini prawf Polisi C9 mae'r bwriadau'n cynnwys cynllun ar gyfer ôl-ddefnyddio'r safle a manylion y gwaith adfer ac ôl-ofal sy'n ofynnol i'w gyflawni.

5.25 Ar y cyfan, mae'r asesiad ASIDOHL, yn unol â Pholisi B12 Cynllun Datblygu Unedol, yn dod i'r casgliad, y byddai'r cynnig yn cael effaith gymedrol ar y Tirwedd Dyffryn Nantlle o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Fodd bynnag, ystyrir bydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal yn ystod y cyfnod gweithredu ac am gyfnod hirach wedi hynny.

5.26 Yn nhermau mwynderau gweledol, credir nid yw'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion Polisi B10, C9, C14 a C15 y Cynllun Datblygu Unedol nag â chyfarwyddyd polisi cynllunio cenedlaethol.

**Mwynderau Preswyl a Chyffredinol**

5.27 Mae nifer o wrthwynebiadau wedi dod i law sy'n tanlinellu materion yn ymwneud ag aflonyddwch posib ac effaith y bwriad ar fwynderau preswyl, yn enwedig felly'r effaith ar y tai hynny sy'n syrthio y tu mewn i gylch rhagod damcaniaethol o 200 medr fel y nodir dan Bolisi C12 y Cynllun Datblygu Unedol. Bydd trefn y gwaith a'r dull o weithio'n ffactor allweddol yng nghyswllt ystyriaethau mwynderol, yn benodol felly, ansawdd aer, llwch, allyriadau cerbydau / peiriannau, sŵn a darparu digon o sgrinio i liniaru'r cyfryw effeithiau. Mae'r cynigion diwygiedig yn cynnwys strategaeth adfer un-cam i gael ei weithredu pan ddaw'r gweithrediadau i ben.

5.28 Mae cynlluniau'r cais, yn dangos ôl troed llai ar gyfer yr ardal brosesu ategol a chompownd y safle a gyflwynwyd gyda'r cais blaenorol Rhif C13/1052/22/MW.

Mae’r manylion diwygiedig a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn cynnwys datganiad swn diwygiedig a gynhaliwyd ym mis Awst 2014 a chael gwared a’r oll weithgareddau malu llechi. Nid oes llawer o wybodaeth yn adroddiad y cais i gadarnhau’r union natur unrhyw weithrediadau prosesu, dim ond fod y graddau o hynny’n cael ei gyfyngu i symud llechi a ellir ei ail-brosesu gyda’r cynnyrch wedi hynny’n cael eu cymryd oddi ar y safle a'i werthu i fasnachwyr, contractwyr adeiladu a gwaith sifil. Mae’r asesiad effaith sŵn cefnogol dim ond yn datgan fod y gweithgareddau malurio’n cael eu heithrio'n benodol o'r cynigion datblygu, lle mae amcangyfrif priodol o lefelau sŵn penodol dim ond yn ystyried gweithrediadau sy'n cynnwys cloddio a llwytho deunyddiau yn unig. Dylid nodi fodd bynnag, nad yw manylion y cais yn eithrio’n benodol yr oll weithgareddau prosesu sydd â’r potensial i gynhyrchu swn a llwch, e.e. defnydd o beiriannau sgrinio symudol. Hefyd, gyda gweithredu strategaeth datblygu un-cam, fydd rhagor o dir gweithredol ar gael fel mae’r cynllun cloddio’n symud ymlaen i’r domen.

5.29 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ac NCTM1: Agregau, wedi sefydlu'r egwyddor o gylchfeydd rhagod o amgylch safleoedd cloddio mwynau, lle mai'r amcan yw gwarchod defnyddiau tir sydd fwyaf sensitif i effaith gwaith mwynau, trwy sefydlu pellter ar wahân rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro. Caiff datblygiad sensitif ei ddiffinio yn NCTM1 fel; “*unrhyw adeilad a ddefnyddir gan bobl yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hostelau, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai, a lle y disgwylir mwynderau o safon dderbyniol*”.

5.30 Diffinnir cylchfa ragod o ymyl allanol y man y byddir yn cloddio a phrosesu, yn cynnwys ffyrdd cludo i safleoedd a bydd cylchfa ragod ddamcaniaethol yn berthnasol i'r holl geisiadau newydd am waith mwynau. Mae NCTM1 yn argymell pellter o ddim llai na 100 metr ar gyfer gwaith tywod a gro ac eraill pan na chaniateir ffrwydro. Dywed y cyfarwyddyd ymhellach, fodd bynnag, bod ymchwil wedi nodi bod pobl sy'n byw yn agos i waith mwynau yn credu mai llwch yw prif effaith cloddio mwynau ac unrhyw waith prosesu, ac yna draffig, sŵn a ffrwydro. Yng nghyswllt gwaith yn ymwneud â symud deunydd o domenni gwaith mwynau, mae Polisi C12 y Cynllun Datblygu Unedol yn mabwysiadu'r egwyddor o gyn lleied o bellter ar wahân a bo modd fel y bwriedir yn NCTM1. Dywed yn benodol y bydd cylchfa ragod 200m o amgylch chwareli creigiau caled, yn cynnwys cloddio o domenni gweithio mwynau creigiau caled.

5.31 Mae'r man gweithio arfaethedig yn ei bwynt agosaf, oddeutu 90m o dŷ Glyn Isfryn, sydd hefyd yn cynnwys manège ac ysgol farchogaeth oddeutu 25 metr i ffwrdd. Fodd bynnag, mae saith tŷ yn Nhanrallt y tu mewn i'r gylchfa ragod ddamcaniaethol 200m sy'n berthnasol i ffin y bwriad fel y nodir dan bolisi C12 CDU Gwynedd. At hyn, mae 36 o dai eraill ym Mro Silyn sydd o fewn 200m i'r trac mynediad. Dywed Polisi C12 ymhellach y gwrthodir datblygiadau mewn achosion lle nad oes modd i'r gylchfa ragod adlewyrchu'r lleiafswm pellter gofynnol.

5.32 Cyflwynwyd effeithiau sŵn a llwch yn benodol i gefnogi'r cais ac, mewn ymateb, mae sylwadau gan drydydd parti wedi mynegi pryderon ynghylch natur ymwthiol datblygiad mwynau mewn ardal wledig. Nid oes data ansawdd aer penodol ar gyfer Tanrallt ond, yn hytrach, mae'r adroddiad yn seilio'i ganfyddiadau ar y data gorau sydd ar gael. Daw'r adroddiad ar lwch i'r casgliad bod, o bosib, mymryn o ostyngiad mewn ansawdd aer yn lleol oherwydd y defnyddir malwr. Mae'n debygol mai am amser byr y bydd hyn ac na ddylai, ar unrhyw adeg, arwain at fynd y tu draw i lefelau meini prawf ansawdd aer. Mae hyn oll yn seiliedig ar y mynegai ansawdd aer a gyhoeddwyd ar Fforwm Ansawdd Aer Cymru.

5.33 At hyn, mae'r adroddiad yn dweud bod tai yn Nhanrallt a Glyn Isfryn yn uwch, lle bydd gwaith malu a phrosesu'n cael eu sgrinio'n addas gan goed. Y bwriad wrth liniaru rhagor yw peidio â gweithredu ar yr hawliau datblygu a ganiateir i symud y domen gwastraff llechi ar ochr orllewinol y safle a fydd yn sgrinio'r iard brosesu. Yng nghyswllt gwaith cloddio, fodd bynnag, mae datganiad y cais yn cadarnhau mai'r dull gweithio fydd defnyddio cloddiwr 360º yn ogystal â defnyddio'r dwylo i ddechrau cloddio o ben y domen mewn gwarrau 3-4 metr o uchder. Er gwaethaf yr effaith bosib o ran sŵn a llwch o lwytho a phrosesu'r deunydd, bydd y gwaith cloddio’n cael effaith ar y rhan fwyaf o dai yn Nhanrallt yn ystod y cyfnodau hynny o ddatblygu pryd y bydd angen i beiriannau ac ati fynd i lefelau uchaf y domen lechi.

5.34 Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig, mae argymhelliad Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn aros ru fath, lle dylid gwrthod y cais. Mae’r adroddiad sŵn gwreiddiol a waned yn 2013 yn rhagweld y bydd gwaith yn y safle yn 20 desibel yn uwch na lefel y sŵn cefndir mewn tai sensitif cyfagos. Ar y llaw arall, dywed NCTM1 y dylai sŵn o waith mwynau gael ei gyfyngu i 10 desibel uwchlaw lefel y sŵn cefndir penodol. Mae adroddiad 2014 fodd bynnag yn cyfeirio at gyfyngiad lefel swn absoliwt o 55dB LAeq, sydd ddim yn berthnasol ar gyfer y datblygiad hwn oherwydd bod y lefelau swn cefndirol yn is na 45 dB(A). Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn datgan ymhellach na ellir asesu’r adroddiad swn diwygiedig yn llawn oherwydd nifer o anghysondebau. Mae canlyniadau’r adroddiad swn diwygiedig (Awst 2014) yn dangos fod lefelau swn cefndirol wedi cynyddu oddeutu 8dB - 11dB wrth gymharu â’r lefelau cafodd eu nodi yn yr asesiad swn 2013. Fodd bynnag, ni ddylai canlyniadau’r asesiad diwygiedig gael eu defnyddio oherwydd i’r mesuriadau swn gael eu cymryd tra roedd gweithgareddau amaethyddol yn digwydd yn y cae cyfagos ynghyd ag effaith y tywydd ar y pryd (gwynt). Nid yw’r canlyniadau felly’n darparu sampl gynrychiadol o lefelau swn cefndirol yr ardal.

5.35 Mae gwanhau sŵn a chyfrifo’r lefelau sŵn ar gyfer offer a pheiriannau wedi cael ei herio gan wrthwynebwyr gan gyfeirio'n benodol at BS 5228. Mae trigolion lleol wedi comisiynu dau adroddiad swn annibynnol, proffesiynol ar eu cost eu hunain sy'n dod i'r casgliad fod sŵn cefndir yn yr ardal yn isel a bod y lefelau sŵn gweithredol a ragwelir yn debygol o fod yn uwch na'r lefelau sŵn a fabwysiadwyd yn adroddiad swn 2013. Dylid nodi fodd bynnag, fod y penderfyniad i gomisiynu asesiad annibynnol, proffesiynol o effeithiau sŵn yn benderfyniad ar drigolion Tanrallt yn unig a dylid trin gwybodaeth o'r fath fel yr hyn a gyflwynwyd i gefnogi gwrthwynebiad trydydd parti ar gais cynllunio. Fodd bynnag, mae’r ddau adroddiad gan y 'preswylwyr' yn ymddangos i gefnogi gwrthwynebiad Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ar sail sŵn cefndir presennol isel ac effeithiau sŵn a ragwelir ddim yn bodloni gofynion MTAN 1.

5.36 O ran tai Bro Silyn, credir mai'r cerbydau trwm sy'n defnyddio'r trac cludo fydd yr elfen fwyaf ymwthiol gan y bydd y gwaith cloddio a phrosesu'n cael ei sgrinio gan y rhan fwyaf o'r domen. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn debygol y ceir effaith gronnol yn sgil gwaith cloddio mwynau, yn cynnwys ffrwydro a gwaith yn Nhŷ Mawr gerllaw a Thyn y Weirglodd, wrth i gyfnodau'r datblygu symud tua'r gorllewin o fewn 130m i stad Bro Silyn. Ymhellach, mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cadarnhau yn eu hymateb i ymgynghoriad nad ydynt yn cytuno gyda manylion yr adroddiad ynglŷn ag asesiad swn HGVs, lle mae sampl 1 awr allan o un diwrnod ddim yn cael ei ystyried fel gwybodaeth ddigonol i roi darlun llawn o’r llif traffig yn yr ardal.

5.37 Yn dilyn ailasesiad o’r cynigion datblygu a’r adroddiad swn diwygiedig a waned yn Awst 2014, mae’r ymgeisydd wedi methu a dangos fod y datblygiad, o ran effaith ar swn, yn gallu cydymffurfio â’r canllawiau perthnasol yn MTAN1: Agregau (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004). O'r herwydd, credir bod y bwriad, ar ei ben ei hun, neu ynghyd â datblygiadau mwynau eraill, yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal a'i fod yn groes i Bolisi B23 yr CDU (mwynderau) a pholisi C12 (cylchfeydd rhagod).

**Materion mynediad a thraffig**

5.38 Derbyniwyd rhybudd a chyflwynwyd manylion priodol yn unol â Rhan 23, Dosbarth B, Atodlen 2 Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir 1995 ar 26ain Hydref 2012, i symud deunydd o'r lleiaf o'r tomenni gwaith mwynau yn Nolbebin, Tanrallt. Caniatawyd cais cynllunio C11/1140/22/LL gydag amodau ar 30ain o Orffennaf 2013 i greu trac newydd i wasanaethu tomen lechi Rhan 23B ynghyd â chreu mynedfa newydd.

5.39 Mae gwrthwynebiadau'n tanlinellu effeithiau ehangach cludo a briodolir i'r cais hwn ac yn enwedig felly, adroddiad traffig Mott Macdonald (Adroddiad Mott) fel ystyriaeth bwysig i wrthod y cais ar apêl yn 2003 i symud gweddill y deunydd o domen lechi Sgwâr Petris.

5.40 Comisiynwyd adroddiad Mott Macdonald er mwyn cynnal astudiaeth i edrych i mewn i effeithiau posib ar y rhwydwaith priffyrdd a allai godi yn sgil mwy o ddiddordeb yn y defnydd a wneir o wastraff llechi, a grëir oherwydd y fantais ariannol a roddwyd i agregau eilaidd (gwastraff llechi) gan y tollau ar agregau. Ar y pryd, y gred oedd bod effaith y cludo trwm ar anheddiad eisoes ar lefel gritigol gydag unrhyw gynnydd yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch ar y ffordd a mwynderau trigolion lleol. Cynhyrchwyd adroddiad yn 2002 ac, o gymharu â'r sefyllfa heddiw, parhau'n gyson y mae'r cludo a ganiateir o'r safle o gyfeiriad Nantlle, er bod yr effaith y mae'r cludo'n ei gael ar bentref Benygroes yn llai oherwydd yr hinsawdd economaidd, cau safle tirlenwi Cilgwyn a darfod y gwaith mwynau yn Nhomen Trosglwyn, Cilgwyn.

5.41 Mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd yr uned drafnidiaeth bod traffig sy'n cludo 4 i 6 llwyth ar gyfartaledd o'r safle bob dydd, yn dderbyniol ac yn annhebygol o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Yn ogystal â hyn, dengys croestoriadau a gyflwynwyd gyda'r cais nad yw'r gwaith cloddio union ger Lôn Ddŵr ac, felly, nid yw'n debygol o danseilio seilwaith y ffyrdd lleol.

5.42 Er y bydd gan y gwaith fynediad uniongyrchol i'r B4418, dylid cadw mewn cof bod cyfyngiad amser ar y caniatâd cynllunio a'i fod yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2015, er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa gynllunio o ran datblygiad a ganiateir pan gaiff ei ganiatáu. Ar yr amod y bydd cais newydd yn sicrhau y defnyddir trac, credir bod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor gan fod y datblygiad yn cydymffurfio gyda Pholisïau CH33 ac CH28 y Cynllun Datblygu Unedol.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.43 Mae safle’r cais tu mewn i ardal o fioamrywiaeth bosib ac ymgeisydd safle bywyd gwyllt lleol dan bolisi B17 Cynllun Datblygu Unedol gan fod iddi gynefinoedd â blaenoriaeth bioamrywiaeth y Deyrnas Gyfunol wedi eu rhestru dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, h.y. sbwriel chwarel, glaswellt corsiog a thwf asid niwtral.

5.44 O ran adnodd gwastraff lechi, mae'r glastir ar ben tomen Dolbebin yn fyr ac nid oes iddo'r meicrogynefin brith sy'n amrywiol ei strwythur ac y mae ymlusgiaid mor hoff ohono, er y ceir yn ardal y domen sydd am y ffin â'r borfa wlyb gymysgedd amrywiol o redyn, mieri a choed collddail aeddfed. Er hynny, cafwyd bod tomenni llechi'n gynefin gwych i anifeiliaid di-asgwrn-cefn megis y gwibiwr llwyd, y cafwyd hyd iddo'n ddiweddar yn safle Dorothea 1km i'r dwyrain. Fel y datganwyd eisoes, mae’r amcanion adfer yn anelu at wella bioamrywiaeth drwy hyrwyddo math o fosaig cynefinoedd a fydd yn annog amrywiaeth fwy o infertebratau, adar, ymlusgiaid ac anifeiliaid eraill.

5.45 Mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) nad oedd yn gwrthwynebu'r bwriad er bod yno faterion y mae gofyn cael caniatâd ar eu cyfer dan eu cylch gorchwyl penodol, a'i fod yn fodlon y cynhaliwyd yr Adroddiad Ecolegol i safon dderbyniol. Ymhellach i hyn, dywed CNC ei bod yn annhebygol y bydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar lygoden y dŵr, y dyfrgi a'r ystlum os glynir wrth y camau lliniaru a nodir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae CNC yn argymell ceisio rhagor o gyngor oddi wrth ymgynghorydd ecoleg mewnol yr Awdurdod yng nghyswllt amrywiaeth leol a rhywogaethau a chynefinoedd eraill a restrir yn adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

5.46 Roedd y cynigion gwreiddiol yn cynnwys 1,200m² o ardal brosesu gysylltiol/compownd safle, o fewn ardal yn cynnwys glaswellt y bwla a chynefin tir glas asid brith sy'n cael eu cynnwys yn rhestr Adran 42 Cynefinoedd Pwysig Iawn o ran diogelu amrywiaeth fiolegol. Mewn ymateb i bryderon gan swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd, fe ddiwygiwyd y cynnigion presennol i gynnwys ôl troed llai ar gyfer yr ardal brosesu ategol a chompownd i’r hyn a gyflwynwyd yn wreiddiol. Tra roedd y cynigion gwreiddiol yn golygu colled Porfa Rhos, mae cynlluniau’r cais wedi’u haddasu fel bo compownd y safle’n cael ei greu o fewn godre’r domen. Mae’r hynny o borfa Rhos a gollwyd yn gyson felly â’r hynny o dir sydd ei angen ar gyfer gosod trac mynediad yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd dan ganiatâd cynllunio cyf. C11/1140/22/LL.

5.47 I liniaru ar gyfer colled bioamrywiaeth, bwriad yr ymgeisydd yw peidio â chyffwrdd yn y domen lai, y rhoddwyd hawliau datblygiad a ganiateir iddi dan Ran 23B ond hefyd, lleihau’r ardal cloddio er mwyn cadw sgrin o goed derw ac onnen ar lethrau de-orllewinnol y domen. Mae'r cynigion adfer yn ffafrio rhostir a gwella bioamrywiaeth. Mewn ymateb i ymgynghoriad ar y cynigion diwygiedig a'r datganiad dull ecolegol, dywedodd Bioamrywiaeth Gwynedd bydd cloddio’r domen lechi a’r ardal o onnen a helyg aeddfed yn arwain at golled cynefin bioamrywiaeth gwerthfawr (cynefin brithwaith agored o dir a ddatblygwyd yn flaenorol) rhestr o dan Ddeddf y Cymunedau Gwledig 2006 yr Amgylchedd Naturiol a Safle Bywyd Gwyllt. Er gwaethaf y mesurau lliniaru arfaethedig a nodwyd yn y cais, mae'r rhain yn gynefinoedd sydd eisoes yn bodoli ac nid ydynt yn gyfystyr â digolledu. Dylai mesuriadau digolledu gynnwys trawsleoli cynefinoedd a phlannu coed cyn dechrau cloddio.

5.48 Nid yw cynlluniau'r cais yn cynnwys manylion draenio, dim ond cyfeiriad at gyngor cyn cyflwyno'r cais ar agweddau llygru a chaniatáu'r bwriad a roddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Cydnabyddir bod nifer o gyrsiau dŵr yn gysylltiedig ag Afon Llyfni a dywed yr Asiantaeth mewn cyngor cyn gwneud cais bod rhwymedigaeth statudol i rwystro dŵr ffo rhag mynd i gyrsiau dŵr ac, o'r herwydd, bod angen methodoleg gadarn i rwystro llygredd yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithio lle mae'n allweddol cadw dŵr glân a dŵr budr ar wahân.

5.49 Mae'r ardal brosesu wedi ei gostwng rhan maint er mwyn lleihau i'r eithaf y risg o ddŵr wyneb wedi ei lygru yn treiddio mewn i gyrsiau dŵr lleol ond hefyd o ganlyniad i’r gweithgareddau malurio gael eu dileu o’r cynigion datblygu. Nid oes unrhyw wybodaeth gyda'r cais i gadarnhau petai angen gosod seilwaith ychwanegol er mwyn gwarchod y cyrsiau dŵr presennol rhag gronynnau llechi bach o waith prosesu eraill fel sgrinio deunyddiau neu waith ategol megis golchi olwynion. O ganlyniad, os yw'r egwyddor o ddatblygu mwynau yn cael ei sefydlu, efallai y bydd angen cyflwyno ceisiadau cynllunio pellach, neu hyd yn oed hysbysiadau o dan ddatblygiad a ganiateir, os ystyriwyd yn angenrheidiol i osod y cyfleusterau draenio a seilwaith ar dir cyfagos yn unol â gofynion CNC. Yn hyn o beth, mae pryder gyda'r swyddog bioamrywiaeth y bydd effeithiau ar fioamrywiaeth anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn ar yr ardal gyfagos o borfa rhos.

5.50 Ystyrir felly fod ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais, bydd effaith cyfyngedig ar yr amgylchedd dŵr lleol a dim colled net o borfa Rhos fel y'i diffinnir yn y rhestr Adran 42 o gynefinoedd o bwysigrwydd allweddol ar gyfer cadwraeth amrywiaeth biolegol. Yn amodol ar gynllun iawndal cynefin a / neu blannu coed, mae'r bwriad felly yn cydymffurfio â Pholisi, B17, B33, C9, C14 a C15 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.

**Materion Archeolegol**

5.51 Mae'r safle mewn ardal lle mae'n bosib iawn bod creiriau archeolegol diwydiannol yno er, fel y dywedwyd ynghynt, tarfwyd rhyw gymaint ar y domen pan weithredwyd ar gynllun a ariannwyd gan y Llywodraeth i ailbroffilio cloddiau'r domen lle daw i lawr i gyfeiriad Lôn Ddŵr.

5.52 Mae'r adroddiad yn nodi nifer o nodweddion archeolegol mewn ardal astudio sy'n rhan o dirlun hanesyddol aml gyfnod Dyffryn Nantlle. Mae'r domen lechi ei hun o arwyddocâd penodol gan ei fod yn esiampl o fath cyffredin o safle lleol sy'n dangos y strategaethau a ddefnyddir gan chwarelwyr-feddianwyr i ennill bywoliaeth mewn amgylchiadau anodd. O'r herwydd, mae nodweddion megis *‘gwaliau’* a phocedi o weithio eilaidd yn gyffredin ar nodwedd y domen hon.

5.53 Mewn ymateb i ymgynghoriad, mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cadarnhau y bydd y gwaith yn cael effaith ar nifer o weddillion diwydiannol ôl canoloesol ond, hefyd, bydd posibilrwydd y bydd rhagor o weddillion, sydd wedi eu cuddio gan wastraff llechi, yn dod i'r wyneb yn ystod y gwaith cloddio. O gofio adnodd archeolegol y safle a'r posibilrwydd o ganfod rhagor o weddillion, mae'r Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol yn argymell, pe caniateid y cais, y dylid cynnwys amod i sicrhau bod gwaith lliniaru archeolegol priodol yn mynd rhagddo cyn y gwaith datblygu arfaethedig ac yn ystod y gwaith hwnnw yn unol â chyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol.

5.54 Fodd bynnag, nid yw ymateb y Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol yn gwneud y pwynt bod nodweddion tomenni megis ‘gwaliau’, sydd y tu allan i ffin y cais, yn agored i ddylanwadau effeithiau eilaidd cloddio mwynau. O gofio natur anwadal tomenni gwaith mwynau, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried dirgryniadau, erydu a pheiriannau gwaith yn ymwthio yn hyn o beth. Fel gyda'r Asesiad o Arwyddocâd, mae'r gwasanaeth cynllunio archeolegol yn ategu'r pwynt ei fod yn hanfodol osgoi tarfu ar broffil y rhan honno o'r domen na fwriedir ei gweithio h.y. ni ddylid tarfu ar y rhan o ardal y domen sy'n wynebu'r gogledd.

5.55 Mae'r gwasanaeth Cynllunio Archeolegol yn argymell bod yr ymgeisydd yn cytuno i ragor o waith lliniaru a chofnodi archeolegol. Fodd bynnag, o gofio natur deunydd y domen a'r posibilrwydd o darfu yn sgil y gwaith mwynau'n ymwthio, byddai'n rhaid cael amodau cynllunio ar gyfer y gwaith lliniaru hwn i gynnwys y cyfan o'r domen er mwyn cydymffurfio â gofynion Polisi B7 a B12 y Cynllun Datblygu Unedol.

**Diogelwch Cyhoeddus a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

5.56 Ni fydd modd i'r cyhoedd ddod ar y safle. Nid oes llwybrau troed na hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi union ardal y cais ac, felly, nid yw'n ofynnol gwneud darpariaeth ar gyfer gwarchodaeth benodol.

5.57 O'r herwydd, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi CH22 y Cynllun Datblygu Unedol.

**Materion cynaliadwyedd**

5.58 Gweler ‘Egwyddor y Datblygiad’.

**Yr Economi**

5.59 Mae cloddio am lechi wedi bod yn ffordd o fyw yng Ngwynedd ers canrifoedd ac mae etifeddiaeth ei weithgareddau wedi dod yn gymaint o ran o ddiwylliant a thirlun yr ardal â'r Gymraeg a'r olygfa. Mae'r Cyngor Cymuned lleol yn cefnogi'r cais oherwydd y dylai bod gan yr awdurdod strategaeth yn ei lle i gael gwared a tomenni llechi yn Nyffryn Nantlle. Rhoddwyd sylw yn yr adroddiad i angen er bod yn rhaid ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng materion a pharch at anghenion yr economi lleol.

5.60 Ym manylion y cais nodir y bydd y datblygiad yn hyrwyddo arallgyfeirio amaethyddol, creu pum swydd mewn ardal wledig ac, mewn ymateb i ymgynghoriad, darparwyd sylwadau gan adran Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd ar y cais blaenorol sydd dal yn ddilys ar gyfer y cais presennol lle mae’n cydnabod bod y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir gan y bwriad yn debygol o gael croeso'n lleol. Fodd bynnag, ymdrinnir â'r mater ynghylch gwaith mwynau dan Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru a NCTM1: Agregau, ac nid yw'n ymddangos yn benodol yn NCT6: ‘*Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy*’. Yr unig beth y mae'r cyfarwyddyd yn ei nodi yw bod datblygiad priodol yn mynd rhagddo yn y lle iawn ar yr adeg iawn trwy sicrhau bod digon o dir ar gael i greu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol ac a yw datblygiad arfaethedig yn gwella neu'n gwaethygu cynaliadwyedd cymuned. Er hynny, polisïau mabwysiedig y Cynllun Datblygu Unedol sy'n gosod y fframwaith cynllunio ar gyfer defnydd tir i gymunedau gwledig a threfol, gan gadw mewn cof nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal.

5.61 Mewn ymateb i gyhoeddusrwydd i'r cais, mae nifer o drydydd parti yn bwrw amheuaeth dros fanteision economaidd tymor byr y bwriad o ran cysondeb gyda busnesau lleol a’r effaith ar waith arall yn yr ardal sy'n seiliedig ar dwristiaeth. Rhydd Datblygu Economaidd Gwynedd sylw pellach ar effaith posib sŵn, llwch a llygru cyrsiau dŵr ar weledigaeth sy'n datblygu ar gyfer Dyffryn Nantlle fel cyrchfan dwristiaeth awyr agored. Ar y llaw arall, fodd bynnag, nid oes tystiolaeth gadarn i awgrymu bod gwaith cloddio mwynau yn Nyffryn Nantlle yn cael effaith andwyol ar y diwydiant twristiaeth lleol.

5.62 O ran yr effaith economaidd, ceir dadleuon o'i phlaid ac yn ei herbyn ac anodd yw rhagweld gydag unrhyw sicrwydd a fydd y bwriad yn cryfhau ac yn arallgyfeirio'r economi lleol ai peidio. O ran polisi strategol 16 yr CDU, rhoddwyd sylw yn yr

adroddiad i'r meini prawf o ran cael effaith ar yr amgylchedd, nodweddion diwylliannol yr ardal neu ar fwynderau trigolion lleol.

5.63 Fodd bynnag, er cydnabod pryderon ynghylch effeithiau negyddol posib ar economi sy'n berthnasol i dwristiaeth, mae hyn yn anodd ei brofi gyda thystiolaeth gadarn. Rhaid ystyried y ffaith bod y diwydiant sy'n gysylltiedig â chwarelydda wedi bod yn rhan annatod o'r economi yn Nyffryn Nantlle ers sawl blwyddyn. Byddai'r bwriad, ynddo'i hun, yn creu pum swydd a chredir y byddid, felly, fanteision i'r economi lleol.

**6. Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

6.1 Mae'r prif bryderon a godwyd gan drydydd parti mewn ymateb i ymgynghoriad ar y cais yn cynnwys, yn bennaf, effaith bosib sŵn, llwch, traffig, niwsans posib, twristiaeth a busnesau lleol ac effaith y bwriad ar fwynderau Tanrallt.

6.2 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ystyried yr amcanion hyn fel ystyriaethau cynllunio lleol yn rhan 5 yr adroddiad hwn. At hyn, mae'r ystyriaethau o bwys sy'n berthnasol i'r bwriad hwn wedi eu hasesu gan gadw mewn cof y cyfarwyddyd a'r polisïau cynllunio perthnasol.

**7. Casgliadau:**

7.1 Ceir nifer o ystyriaethau cynllunio o bwys yn ymwneud â'r cais hwn ac mae angen pwyso a mesur y rhain i gyd yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Unedol ac unrhyw ystyriaethau cynllunio eraill fel rhan o'r broses o wneud argymhelliad.

7.2 O ran yr angen lleol a rhanbarthol am y mwyn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad oes modd i'r safleoedd ymdopi gyda'r galw presennol na'r galw a ragwelir am gynnyrch llechi, a hynny o ran capasiti a deunydd wrth gefn nac o ran yr angen lleol neu ranbarthol. O'r herwydd, nid oes cyfiawnhad dros safle cloddio newydd yn Nyffryn Nantlle. Nid oes rheidrwydd ar yr awdurdod, o ran dosbarthiad rhanbarthol, i sicrhau cronfeydd pellach neu ddyraniadau o graig galed neu wastraff llechi. O'r herwydd, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda Chyfarwyddyd a Pholisi Cynllunio Rhanbarthol a Chenedlaethol ag â gofynion Polisi C9, C10 ac C15 y Cynllun Datblygu Unedol. Er mwyn lleihau i'r eithaf ar effaith weledol ac Amgylcheddol datblygu mwynau yn Nyffryn Nantlle, buasai'n rhaid i'r awdurdod, yn gyntaf, ystyried estyniadau i'r safleoedd presennol.

7.3 Argymhellir rhagor o waith lliniaru a chofnodi archeolegol ar gyfer y cyfan o ardal y domen.

7.4 Er gwaethaf casgliadau'r Asesiad o Arwyddocâd, gan nad oes cynlluniau a lluniadau penodol ar gyfer cynllun adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd fesul cam, credir y bydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal, a hynny yn ystod y cyfnod gweithio ac unwaith y bydd y gwaith wedi dod i ben.

7.5 Gydag amod y cyflwynir cais newydd i sicrhau defnyddio trac, credir bod y bwriad, o ran effaith traffig, yn dderbyniol mewn egwyddor, o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda Pholisïau CH33 ac CH28 y Cynllun Datblygu Unedol.

7.6 Yn dilyn ail-asesiad o’r cynigion datblygu a’r adroddiad swn diwygiedig a waned yn Awst 2014, mae’r ymgeisydd wedi methu a dangos fod y datblygiad, o ran effaith ar swn, yn gallu cydymffurfio â’r canllawiau perthnasol yn MTAN1: Agregau (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004). Credir bod y bwriad ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad gyda gwaith arall yn yr ardal i ddatblygu mwynau, yn debygol o gael

effaith andwyol ar fwynderau'r ardal a'i fod yn groes i bolisi B23 yr CDU (mwynderau) ac i bolisi C12 (cylchfeydd rhagod). Rhaid pwysleisio fod Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn gwrthwynebu’r cais ac y gall ei ganiatáu achosi niwsans statudol oherwydd effaith swn yn sgil y datblygiad.

7.7 Bydd y bwriad yn sicrhau cyflogaeth i bum person a byddai hyn yn fantais i economi'r ardal.

7.8 Nid yw’r cais cyfredol yn goresgyn yr oll resymau am wrthod y cais cynllunio blaenorol. O gofio'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol o bwys sy'n ymwneud â'r bwriad hwn, credir bod y pryderon ynghylch yr effaith weledol a'r ffaith nad oes manylion adfer, effaith y gwaith cloddio ar fwynderau preswyl a'r angen am y mwyn yn drech na'r manteision economaidd posib ac ystyriaethau eraill. O'r herwydd, nid yw'r cais yn cydymffurfio gyda Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd a'r cyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol perthnasol.

**8. Argymhelliad:**

8.1 Gwrthod caniatâd am y rhesymau â ganlyn;

8.2 O ran yr angen lleol a rhanbarthol am y mwyn, credir bod digon o gronfeydd o lechi yng Ngwynedd ac nid oes rheidrwydd ar yr awdurdod, o ran dosbarthiad rhanbarthol, i sicrhau rhagor o gronfeydd neu ddyraniadau o wastraff llechi. O'r herwydd, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda Chyfarwyddyd a Pholisi Cynllunio Rhanbarthol a Chenedlaethol nag â gofynion Polisi C9, C10 ac C15 y Cynllun Datblygu Unedol. Er mwyn lleihau i'r eithaf ar effaith weledol ac amgylcheddol datblygu mwynau yn Nyffryn Nantlle, buasai'n rhaid i'r awdurdod, yn gyntaf, ystyried estyniadau i'r safleoedd presennol.

8.3 Gan nad oes cynlluniau a lluniadau penodol ar gyfer cynllun adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd fesul cam, credir y bydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal, a hynny yn ystod y cyfnod gweithio ac unwaith y bydd y gwaith wedi dod i ben. At hyn, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion B10, C9, C14 ac C15 y Cynllun Datblygu Unedol nag â chyfarwyddyd polisi cynllunio cenedlaethol.

8.4 Credir bod y bwriad, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â gwaith arall yn yr ardal i ddatblygu mwynau, yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal a'i fod yn groes i bolisi B23 y CDU (mwynderau) ac i bolisi C12 (cylchfeydd rhagod).

## Rhif y Cais / Application Number : C14/0645/22/MW

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

Ap Thomas Partnership
Unit 13B, Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
01248 670353
info@ap-thomas.com
www.ap-thomas.com

# Tomen Dolbebin
# Talysarn
# Gwynedd

4967

**Ap Thomas Partnership**
Unit 13b
Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
01248 670353
www.ap-thomas.com
info@ap-thomas.com

| | | |
|---|---|---|
| C | 06.01.14 | Existing trees indicated: RWJ |
| B | 28.08.13 | Section lines indicated: THD |
| A | 05.10.12 | Contour density amended: THD |

© This drawing is copyright of Ap Thomas Partnership and must not be copied or reproduced in any format in whole or part thereof without written consent

DATE :10.11.2011 SCALE : 1:1250
DRAWN : THD CHECKED : AMJ

JOB.
**Tomen Dolbebin**
**Talysarn**
**Gwynedd**

DRG.
**Cynllun Safle Presennol**

| JOB NO. | DRG. REF. | REV. |
|---|---|---|
| 4967 | (91) 01 | C |




**Ap Thomas Partnership**
Unit 13b
Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
01248 670353
www.ap-thomas.com
info@ap-thomas.com


| Rev. | Date | Description |
|---|---|---|
| E | 09.01.14 | Development line amended: RWJ |
| D | 08.01.14 | Creiden wedi ei bangor, symud lleoliad iard ac amlinelliad cloddio'r domen: RWJ |
| C | 11.12.13 | Newid arwynebedd y iard: PG |
| B | 14.08.13 | Section lines and works area indicated: THD |
| A | 05.10.12 | Track layout amended: THD |

© This drawing is copyright of Ap Thomas Partnership and must not be copied or reproduced in any format in whole or part thereof without written consent


| | |
|---|---|
| DATE :10.11.2011 | SCALE : 1:1250 |
| DRAWN : THD | CHECKED : AMJ |
| JOB. Tomen Dolbebin Talysarn Gwynedd | |
| DRG. Cynllun Safle Bwriededig | |

| JOB NO. | DRG. REF. | REV. |
|---|---|---|
| 4967 | (91) 02 | E |







Toriada A - a Presennol



Toriada B - b Presennol



Toriada A - a Bwriededig



Toriada B - b Bwriededig


Ap Thomas Partnership
Unit 13b
Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
01248 670353
www.ap-thomas.com
info@ap-thomas.com


| Rev. | Date | Description |
|---|---|---|
| B | 09.01.14 | Addasu toriad B - b: RWJ |
| A | 08.01.14 | Addasu toriadau RWJ |

© This drawing is copyright of Ap Thomas Partnership and must not be copied or reproduced in any format in whole or part thereof without written consent.

DATE : 15.07.2013 SCALE : 1:1250

DRAWN : THD CHECKED : AMJ

JOB.
**Tomen Dolbebin**
**Talysarn**
**Gwynedd**

DRG.
**Toriadau Safle**
**Presennol a Bwriededig**

| JOB NO. | DRG. REF. | REV. |
|---|---|---|
| 4967 | (92) 01 | B |

Ap Thomas Partnership

| DATE | 10.11.2011 | SCALE | 1:1250 |
|---|---|---|---|
| DRAWN | THD | CHECKED | AMJ |

JOB: **Tomen Dolbebin Talysarn Gwynedd**

DRG: **Cynllun Safle Bwriededig**

| JOB NO. | DRG. REF | REV. |
|---|---|---|
| 4967 | (91) 02 | E |

